| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | **PWYLLGOR SCRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **8 HYDREF 2012** |
| **TEITL** | **Cynllun Gwella Corfforaethol 2012 - adolygiad sydd yn edrych yn ôl ar berfformiad 2011/12** |
| **AWDUR** | **Huw Jones**<br>**Pennaeth Gwasanaeth – Polisi** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **John Chorlton** |

**1.0 Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

1.1 Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r adolygiad perfformiad blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn yn sôn am berfformiad y flwyddyn ddilynol. Adolygiad perfformiad (drafft) a baratowyd sydd yma yn edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor am 2011/12.

1.2 Mae copi o'r Cynllun drafft wedi ei atodi. Mae'n bwysig i Aelodau nodi fodd bynnag bod angen mireinio'r ddogfen ymhellach a'i golygu. Y bwriad yw cyflwyno dogfen ddiwygiedig i'r Cyngor.

1.3 Rhaid cyflwyno'r Cynllun Gwella i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo cyn diwedd Hydref 2012 ac mae eisoes wedi cael ei raglennu i gael ei adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15eg o Hydref 2012

**2.0 Ystyriaethau**

**Blaenoriaethau Strategol a Gwella**

2.1 Mae'r Cynllun yn edrych ar y cynnydd y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn erbyn ei bum blaenoriaeth strategol –

- Gwarchod a datblygu economi'r ynys
- Datblygu a chefnogi cymunedau cynaliadwy
- Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg
- Gwasanaethau effeithlon a fforddiadwy
- Codi proffil economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor a'r ynys

yn ogystal ag yn erbyn ei amcanion gwella datganedig fel y'i gwelir yn y prif benawdau isaf:

- Gweithredu'n fwy fel busnes
- Cyflawni yn erbyn y Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy
- Gwireddu ein Cytundeb Canlyniadau
- Adnewyddiad Democrataidd

**Gwella Llywodraethu Corfforaethol**

2.2 Roedd Gwella Llywodraethu Corfforaethol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn ystod 2011/12 a cheisiodd roddi sylw i'r mater hwn drwy gyfrwng 10 elfen gwella llywodraethu rheolaethol a nodwyd gan y Comisiynwyr –

1. Safonau Ymddygiad Aelodau a Swyddogion
2. Datblygu partneriaethau effeithiol rhwng y Cyngor a'r sectorau cyhoeddus a preifat yn lleol, rhanbarthol a cenedlaethol
3. Datblygu blaenoriaethau strategol gyda dangosyddion deilliannau mesuradwy
4. Effeithiolrwydd Sgriwtini
5. Cydlyniad, trefniadaeth a effeithiolrwydd Uwch Dim Rheoli y Cyngor
6. Effeithlonrwydd Pwyllgor Safonau y Cyngor
7. Adnabod ac ystyried blaenoriaethau a barn dinasyddion Môn
8. Gwella capasiti, ansawdd a rheolaeth y gwasanaethau corfforaethol
9. Cyflwyno system grymus ar gyfer rheolaeth perfformiad, prosiect a risg
10. Y berthynas rhwng Aelodau a Grwpiau Gwleidyddol

2.3 Y mae ein llwyddiant yn erbyn yr elfennau yma o'n taith yn cael eu hadnabod o dan y ddwy flaenoriaeth strategol diwethaf sef - Gwasanaethau effeithlon a fforddiadwy / Codi proffil y Cyngor a'r Ynys

**Adroddiadau Archwilio ac Arolygu**

2.4 Ynghyd â pharhau i roddi sylw i'r materion a oedd yn codi o'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol, gwnaed gwaith rheoleiddiol pellach yn ystod 2011/12 mewn meysydd eraill yn y Cyngor. Ceir crynodebau yn yr amryfal adroddiadau archwilio ac arolygu y cyfeirir atynt yn y Cynllun.

**Dangosyddion Perfformiad**

2.5 Dan y Fframwaith Mesur Perfformiad a gyflwynwyd yn Ebrill 2005, rhaid i bob Cyngor yng Nghymru gasglu a rhannu data ar gyfer Dangosyddion Strategol

Cenedlaethol yn ogystal â Dangosyddion Strategol Craidd dan bob maes gwasanaeth. Mae canlyniadau llawn ar gyfer y dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Dangosyddion Craidd ar gyfer 2011/12 i'w gweld ar dudalen 69 ymlaen. Mae'r rhan hon o'r Cynllun yn edrych ar berfformiad yn erbyn y chwartelau sydd ar y brig, yn y canol ac ar y gwaelod a hefyd yn erbyn perfformiad rhwng 2010/11 a 2011/12. Yn ychwanegol, cyflwynir gwybodaeth ar berfformiad fel y caiff ei feincnodi yn erbyn Awdurdodau eraill yn y rhannau perthnasol o'r Cynllun sy'n cyfeirio at flaenoriaethau strategol y Cyngor.

2.6 O'r wybodaeth a gafwyd, gwelwyd bod 38% o DP y Cyngor yn y chwartel uchaf (gwelliant o 10% ers 2010/11), 34% yn y chwarter canol (dirywiad o 9% wrth ystyried perfformiad 2010/11) a 28% yn y chwartel isaf (dirywiad o 2% ers 2010/11).

2.7 O'r ffigyrau hyn, mae'n galonogol nodi mai'r cyfadran Dysgu Gydol-Oes yw ein perfformiwr cryfaf gyda 53% o'i DP yn y chwartel uchaf tra bod gan y cyfadran Datblygu Cynaliadwy 41% yn y chwartel hwnnw ac mae 33% o DP cyfadran y Gymuned o fewn yr un amrediad.

2.8 Serch hyn mae angen nodi'r ffaith bod oddeutu 29% o'r holl ddangosyddion o fewn maes gwaith y Cyngor wedi dirywio ers 2010/11.

2.9 O ran cyfadran y Gymuned ac yn arbennig felly'r Gwasanaethau Plant a arolygwyd gan yr AGGCC yn ystod y flwyddyn, mae'n galonogol nodi bod 59% o'i dangosyddion wedi gwella ers 2010/11 gyda 28% yn dirywio a 11% yn aros yr un fath.

2.10 Mae'r darlun cyffredinol felly o ran ein dangosyddion perfformiad (DP) yn 2011/12 yn dangos gwelliant o ran perfformiad o gymharu â 2010/11 a mae angen gwaith dadansoddi pellach.

2.11 Bwriedir defnyddio'r wybodaeth ar data perfformiad er mwyn gwella trefniadau monitro perfformiad ar draws yr Awdurdod a sylw i feysydd risg.

**Cytundebau Canlyniadau**

2.12 Y flwyddyn hon, 2011/12, oedd ail flwyddyn rhaglen tair blynedd ar gyfer darparu Cytundebau Canlyniadau a lofnodwyd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru (LlC). Yn seiliedig ar yr arwyddion o'n gwaith hunanasesu a thrafodaethau cychwynnol rhagarweiniol gyda LlC ar ddiwedd blwyddyn 1, rydym yn credu ein bod yn

debygol o gael 75% a 100% o grant (disgwyl am gadarnhad gan LlC ar adeg ysgrifennu). Er ein bod wedi llwyddo i gyflawni'r mwyafrif helaeth o'n canlyniadau a'n targedau ar draws y rhan fwyaf o'r cytundebau canlyniadau, mae yna ddiffyg mewn lleiafrif sy'n golygu na fyddwn efallai yn cael y nifer gofynnol o bwyntiau ar y raddfa grantiau i gael grant o 100%.

2.13 Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r Cyngor yn gwybod beth fydd canlyniad terfynol asesiad ffurfiol y flwyddyn gyntaf a swm y grant a roddir.

**Perfformiad Ariannol 2011/12**

2.14 Mae yna gyfeiriad yn y ddogfen o ran sefyllfa a pherfformiad cyffredinol y Cyngor o safbwynt ariannol ar gyfer 2011/12.

**Sicrhau Cydraddoldeb a Chynaliadwyedd**

2.15 Parheir i brif lifo cynaliadwyedd ar draws yr Awdurdod ac mae strategaeth cydraddoldeb wedi'i fabwysiadu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei integreiddio mewn i weithdrefnau'r dyfodol.

## 3.0 Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini i:

1) Gyflwyno sylwadau ar y cynllun drafft a'u cyfeirio i'r Pwyllgor Gwaith.

2) Graffu'r wybodaeth ar berfformiad data gan gynnig arweiniad i'r Cyngor ynglŷn â pha feysydd neu grwpiau o ddangosyddion perfformiad y dylid eu blaenoriaethu a gwella i'r dyfodol.

3) Rhoi sylw i feysydd penodol o berfformiad y dylid ystyried yn fwy manwl ac i bwrpas craffu.